EISTEDDFOD

<u>Datganiad Gwrth Hiliaeth Eisteddfod Genedlaethol Cymru</u>

Ein hymrwymiad

Mae'r Eisteddfod wedi ymrwymo i fod yn ŵyl gynhwysol sy'n parchu a dathlu amrywiaeth yn ei holl weithgareddau a gweithdrefnau, ac i sicrhau na ragfernir yn erbyn unrhyw un ar sail anabledd, cefndir, cred, crefydd, hil, oedran, rhyw, rhywedd na rhywioldeb (Rheolau Sefydlog yr Eisteddfod, 2022).

Yn unol â hyn, rydyn ni wedi ymrwymo i weithio i ddileu hiliaeth a gormes ledled cymdeithas fel rhan o'n hymrwymiad hollgynhwysol i hybu hawliau dynol, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad.

Ein nod bob amser yw trin pobl yn deg ac â pharch, dysgu am ddiwylliannau a chenhedloedd eraill, a chreu profiadau positif sy'n pwysleisio ein hymroddiad i wrth hiliaeth yn y Gymru gyfoes.

Byddwn ni'n herio hiliaeth yn rhagweithiol yn ein sefydliad ac mewn sefydliadau eraill y cwrddwn â nhw.

Ein nod fydd canfod a dileu unrhyw hiliaeth sefydliadol yn ein sefydliad ein hun ac yn y gymdeithas ehangach.

Hwn yw ein datganiad gwrth-hiliaeth gyntaf, ac mae'n feincnod i ni adeiladu arno.

Rydyn ni'n ymrwymo i adolygu cynnydd yn erbyn ein camau gweithredu a'r datganiad hwn yn flynyddol.

Rydyn ni wedi bod yn datblygu ein diwylliant, ein polisïau a'n harferion fel ein bod ni'n gallu dod yn sefydliad gwrth-hiliol gweithredol ym mhopeth a wnawn, ac yn gallu cyflawni newid ystyrlon.

Rydyn ni wedi sefydlu prosiectau celfyddydol yn sicrhau bod artistiaid o fwyafrif bydol a lleiafrif ethnig yn rhan ganolog o arlwy'r ŵyl.

Mae ein disgrifiadau swydd wedi cael eu diweddaru i ddangos ein bod ni'n gosod gwerth ar brofiad bywyd fel math o arbenigedd.

Rydyn ni'n sicrhau bod y bobl rydyn ni'n cysylltu â nhw yn cael eu cadw'n ddiogel trwy ein polisïau a'n hymarfer.

Ein nod yw gwrthweithio pob math o gamwahaniaethu a glynu at ddeddfwriaeth cydraddoldeb ym mhob agwedd ar ein gwaith.

Byddwn yn sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â'r Eisteddfod, yn aelodau staff, Bwrdd Rheoli, Cyngor, Llys, pwyllgorau canolog a lleol, cystadleuwyr, a'n gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'n hymrwymiad i sicrhau ein bod ni'n sefydliad, prosiect a gŵyl wrth hilio, sy'n gweithredu'n gadarn yn erbyn hiliaeth a bwlio hiliol.

Tachwedd 2022